Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)
## Crynodeb o'r Bil

Rhagfyr 2023



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 7373**
E-bost: **Lucy.Morgan@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)

## Crynodeb o'r Bil

Rhagfyr 2023

**Awdur:**
Lucy Morgan

# Mae'r papur briffio hwn yn crynhoi'r Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) fel y'i cyflwynwyd.

Mae'r **Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)** ("y Bil") yn **Fil Aelod** a gyflwynwyd gan Sam Rowlands AS, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil.

**Cyflwynwyd y Bil** i'r Senedd ar 24 Tachwedd 2023, gyda **Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol** yn cyd-fynd ag ef. Cynhaliwyd y **Datganiad Deddfwriaethol** ar 29 Tachwedd, pan fo Sam Rowlands wedi cyflwyno'r Bil ac Aelodau'r Senedd wedi trafod ei gynigion yn y Cyfarfod Llawn.

Byddai'r Bil yn rhoi dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod cwrs addysg awyr agored breswyl yn cael ei ddarparu unwaith, yn rhad ac am ddim fel rhan o'r cwricwlwm, i ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir (y rhai sy'n cael addysg mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru). Mae'r Bil hefyd yn sefydlu rhwymedigaeth statudol i Weinidogion Cymru ddyrannu cyllid i awdurdodau lleol er mwyn eu galluogi i wneud hyn.

Cyfeiriwyd y Bil at y **Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** ar gyfer craffu **Cyfnod 1**. Bydd y Pwyllgor yn cynnal sesiynau tystiolaeth i glywed barn rhanddeiliaid am y Bil cyn cyflwyno adroddiad i'r Senedd.

# Cynnwys

**1. Cefndir ........ 1**

Y Bil Drafft ........ 1

Cyflwyno'r Bil ........ 1

**2. Yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud ........ 2**

Crynodeb o ddarpariaethau'r Bil ........ 2

Adran 1 – Darparu addysg awyr agored breswyl ........ 2

Adran 2 – Cyllid ar gyfer addysg awyr agored breswyl ........ 5

Adran 3 – Dim caniatáu codi tâl am fwyd a llety ar gyfer addysg awyr agored breswyl ........ 6

Adran 4 – Pŵer i wneud darpariaeth drosiannol ........ 6

Adrannau 5 a 6 – Dod i rym ac enw byr ........ 7

Asesiad Effaith Rheoleiddiol ........ 7

Amcangyfrif o'r costau ........ 7

**3. Crynodeb o'r ymgyngoriadau ar y Bil Drafft ........ 9**

Ymgynghoriad cyffredinol ........ 9

Ymgynghoriad i blant a phobl ifanc ........ 10

Ymgynghoriad penodol ........ 11

**4. Y camau nesaf ........ 12**

# 1. Cefndir

## Y Bil Drafft

Roedd Sam Rowlands AS yn llwyddiannus yn sgil **pleidlais ar gyfer Biliau Aelod ym mis Gorffennaf 2022** ym mis Gorffennaf 2022 a chafodd ei gynnig ar gyfer y Bil **ganiatâd y Senedd i fwrw ymlaen** ar 26 Hydref 2022.

Cynhaliodd Sam Rowlands dri ymgynghoriad rhwng mis Ionawr a mis Medi 2023: **ymgynghoriad cyffredinol**, **ymgynghoriad i blant a phobl ifanc**, ac **ymgynghoriad penodol**.

**Newidiwyd enw'r Bil** o'r Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) i'r Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) "yn dilyn yr ymgynghoriad cychwynnol a gynhaliwyd i lywio datblygiad y Bil".

## Cyflwyno'r Bil

Cyflwynwyd y **Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)** ar 24 Tachwedd 2023 ynghyd â'r **Memorandwm Esboniadol**.

Ar 29 Tachwedd, **gwnaeth Sam Rowlands ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn** i gyflwyno'r Bil. Dywedodd y canlynol:

> Mewn gwirionedd mae'r Bil hwn yn canolbwyntio ar y cyfleoedd i'n pobl ifanc, ac mae llawer iawn o dystiolaeth yn dangos bod cyrsiau preswyl addysg awyr agored yn cynnig cyfleoedd sylweddol ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol plant a phobl ifanc.

Dywedodd Sam Rowlands y byddai'r Bil yn "sefydlu cwrs o addysg awyr agored breswyl fel hawl yn y cwricwlwm, yn hytrach na chyfoethogiad yn unig".

Yn y ddadl, gwnaeth Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, "gydnabod y cyfraniad y gall addysg awyr agored breswyl ei wneud i ddatblygiad a llesiant ein pobl ifanc". Fodd bynnag, ychwanegodd nad yw'n fodlon torri cyllidebau rheng flaen ysgolion i ariannu'r ddeddfwriaeth ac nad yw'n fforddiadwy.

# 2. Yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud

Byddai'r Bil yn rhoi dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod cwrs addysg awyr agored breswyl yn cael ei ddarparu unwaith, yn rhad ac am ddim fel rhan o'r cwricwlwm, i ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir (y rhai sy'n cael addysg mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru). Mae'r Bil hefyd yn sefydlu rhwymedigaeth statudol i Weinidogion Cymru ddyrannu cyllid i awdurdodau lleol er mwyn eu galluogi i wneud hyn.

Nod y Bil yw rhoi cyfle i bob plentyn mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru i gael profiad o addysg awyr agored breswyl, beth bynnag fo'i gefndir economaidd-gymdeithasol, anableddau, anghenion dysgu ychwanegol (ADY), cefndir diwylliannol neu leoliad daearyddol. Nodir yn y Memorandwm Esboniadol (y Memorandwm) y "bydd hyn yn newid profiad addysg awyr agored breswyl o fod yn weithgaredd cyfoethogi i fod yn elfen o hawl yn y Cwricwlwm i Gymru".

## Crynodeb o ddarpariaethau'r Bil

### Adran 1 – Darparu addysg awyr agored breswyl

#### Cwrs Addysg Awyr Agored Breswyl

Mae adran 1 yn darparu ar gyfer darparu addysg awyr agored breswyl drwy fewnosod adran newydd yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("Deddf 2021").

Mae'n darparu bod yn "rhaid i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod cwrs addysg awyr agored breswyl yn cael ei ddarparu unwaith, yn rhad ac am ddim fel rhan o gwricwlwm, i ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir". Nodir yn y Memorandwm y rhoddir y ddyletswydd ar Weinidogion Cymru yn hytrach nag awdurdodau lleol neu ysgolion fel y gall Gweinidogion benderfynu ar y ffordd orau o weithredu hyn.

Byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi Cod Addysg Awyr Agored Breswyl. Mae'r Bil yn datgan bod yn rhaid dyroddi'r Cod o fewn blwyddyn i'r adran hon ddod i rym ac y byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru ei gadw o dan adolygiad. Mae'r Bil yn datgan na fyddai'r cwricwlwm yn cydymffurfio â'r darn hwn o ddeddfwriaeth oni bai ei fod yn cyd-fynd â'r Cod.

Mae'r adran hon yn pennu bod yn rhaid i gwrs addysg awyr agored breswyl

gynnwys o leiaf bedair noson a phum niwrnod yn aros mewn llety preswyl ac y caiff ddigwydd ar un ymweliad neu ymestyn dros fwy nag un ymweliad. Nodir yn y Memorandwm fod "ymweliadau addysg awyr agored breswyl hwy yn cael mwy o effaith o ran datblygiad personol a chymdeithasol na rhai byrrach". Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos "bod y farn am hyd gorau cwrs addysg awyr agored breswyl yn gymysg" ac "efallai na fydd hyd arhosiad o'r fath yn briodol i bob plentyn a pherson ifanc" felly mae'r Bil yn darparu ar gyfer hyblygrwydd.

Nodir y canlynol yn y Memorandwm:

> Bydd angen olrhain disgyblion i weld a ydynt wedi cael profiad addysg awyr agored breswyl, y tybir y bydd awdurdodau lleol yn ei ymgorffori yn yr wybodaeth sydd ganddynt am ddisgyblion.

Mae'r Bil yn datgan nad oes dim byd yn yr adran hon sy'n atal addysg awyr agored breswyl rhag cael ei darparu y tu allan i'r cwricwlwm, pa un a gaiff ei darparu i ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir ai peidio. Nodir yn y Memorandwm nad yw'r hawl i gael addysg awyr agored breswyl yn berthnasol i'r rhai sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, er enghraifft mewn unedau cyfeirio disgyblion, neu blant y mae eu rhieni'n eu haddysgu gartref o ddewis. Mae'n ychwanegu mai'r gobaith yw "y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellir cynnig yr addysg honno [i'r plant hynny], boed fel rhan o'r hawl statudol neu drwy ddulliau eraill".

## Dyletswydd i ddyroddi canllawiau

Mae adran 1 hefyd yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau ar addysg awyr agored breswyl ac yn pennu elfennau penodol y mae'n 'rhaid' eu cynnwys mewn canllawiau ac yn nodi elfennau y 'caniateir' eu cynnwys. Mae'r Bil yn datgan bod yn rhaid dyroddi canllawiau o fewn blwyddyn i'r adran hon ddod i rym.

Nodir yn y Memorandwm mai canllawiau "fydd y prif fecanwaith y gall Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio i nodi'r manylion o ran sut y caiff y Bil ei roi ar waith yn ymarferol".

Mae'r Bil yn nodi bod yn **rhaid** cynnwys mewn canllawiau y canlynol o ran addysg awyr agored breswyl:

- Nad yw'n orfodol i ddisgyblion ei mynychu;
- Ei bod yn addas ar gyfer oedran, gallu a dawn disgybl, ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol sydd ganddo;

- Y caiff ei darparu yn Gymraeg, cyn belled â'i bod ar gael, pan fo ysgol yn gwneud cais am hynny; ac
- Y darperir ar gyfer costau y mae'n rhesymol mynd iddynt, gan gynnwys costau bwyd a llety a chludiant ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

Nodir yn y Memorandwm ei bod yn annhebygol y bydd angen unrhyw gymorth ychwanegol yn ystod cwrs addysg awyr agored breswyl ar y rhan fwyaf o blant. Fodd bynnag, nodir "er nad oes darpariaeth arbenigol yng Nghymru ar gyfer y rhai sydd ag anghenion cymhleth mwy difrifol, mae darpariaeth o ansawdd uchel ar gael yn Lloegr [yn Cumbria ac Exmoor]".

Nodir yn y Memorandwm fod y gofyniad o ran y Gymraeg "yn cyd-fynd â'r egwyddor a dderbynnir yn gyffredinol y dylai dysgwyr dderbyn addysg yn eu dewis iaith". Fodd bynnag, ychwanegir "y bydd hyn yn dibynnu ar gapasiti ac argaeledd". Mae'r Memorandwm yn datgan bod y capasiti i ddarparu cyrsiau addysg awyr agored breswyl drwy gyfrwng y Gymraeg wedi'i gyfyngu i lond llaw o ddarparwyr yn unig. Mae hyn yn cynnwys canolfannau'r Urdd.

Mewn perthynas â chostau rhesymol i'w talu, nodir yn y Memorandwm nad yw'n fwriad gan y Bil "y dylai'r pwrs cyhoeddus ariannu gwyliau neu ymweliadau gormodol ac anghymesur".

Mae'r Bil yn nodi y **caiff** canllawiau:

- Nodi'r oedrannau, neu'r blynyddoedd ysgol, pan fwriedir darparu addysg awyr agored breswyl;
- Darparu bod addysg awyr agored breswyl yn hybu dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru;
- Nodi gofynion y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caniateir i berson ddarparu addysg awyr agored breswyl;
- Gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chostau staff ysgolion mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl; a
- Chynnwys unrhyw ddarpariaeth arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol.

Nodir yn y Memorandwm fod "manteision clir i gyrsiau addysg awyr agored breswyl yn y cyfnod pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd". Nodir bod rhai o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad yn galw "am hyblygrwydd o ystyried y gall y manteision a all ddeillio o oedrannau eraill hefyd" ac mai "mater i Lywodraeth Cymru fydd ystyried hyn ymhellach".

Mewn perthynas â hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru, nodir yn y Memorandwm fod "cysylltiadau posibl amlwg rhwng cynnal cwrs addysg awyr agored breswyl yng Nghymru a chael eich amlygu i'r Gymraeg a dysgu am dreftadaeth a diwylliant Cymru". Ychwanegir y "gallai Llywodraeth Cymru ystyried sut i gyflawni buddiannau polisi eraill megis Cymraeg 2050".

O dan ddarpariaethau'r Bil, caiff canllawiau sydd i'w dyrannu gan Weinidogion Cymru nodi gofynion y mae'n rhaid i berson eu bodloni er mwyn gallu darparu addysg breswyl. Mae'r Memorandwm yn nodi'r cyd-destun presennol bod rhywfaint o addysg awyr agored breswyl yn ddarostyngedig i ofynion trwyddedu o dan Ddeddf Canolfannau Gweithgareddau (Diogelwch Pobl Ifanc) 1995 a Rheoliadau Trwyddedu Gweithgareddau Antur 2004. Mae Deddf 1995 yn darparu ei bod yn ofynnol i unrhyw un sy'n darparu gweithgareddau antur, yn gyfnewid am dâl, a nodir yn Rheoliadau 2004, i bobl o dan 18 oed feddu ar **drwydded Awdurdod Trwyddedu Gweithgareddau Antur.** Ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn dod o dan Reoliadau 2004, mae'n ofynnol rhoi tystiolaeth o arolygiad trydydd parti i ddangos eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch a darpariaeth addysgol o ansawdd uchel. Mae cynlluniau achredu gwirfoddol y gellir eu dyfarnu i ddarparwyr.

Mae'r ddyletswydd i ddyroddi canllawiau mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl yn cynnwys pwerau i ganiatáu i Lywodraeth Cymru wneud darpariaeth mewn cysylltiad â chostau staffio ysgolion o ran addysg awyr agored breswyl. Mae adran 2 o'r Bil yn pennu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu swm i awdurdodau lleol sy'n ddigonol i alluogi'r awdurdod lleol i gyflawni ei swyddogaethau. Fodd bynnag, nid yw'n ei gwneud yn ddyletswydd cynnwys costau staffio yn y rhain. Mewn perthynas â darparu ar gyfer costau staffio ysgolion, nodir yn y Memorandwm fod adran 2 yn "galluogi Llywodraeth Cymru i ystyried yr hyn y gallai fod angen ei gynnwys". At hynny, nodir y gost ar gyfer staffio yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Codwyd y mater o gostau staffio ychwanegol mewn ymatebion gan undebau athrawon a phrifathrawon i'r ymgynghoriad.

## Adran 2 – Cyllid ar gyfer addysg awyr agored breswyl

Mae adran 2 yn darparu ar gyfer cyllido addysg awyr agored breswyl drwy fewnosod adran newydd yn Neddf 2021.

Byddai'r Bil yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i "dalu swm i awdurdod lleol sy'n ddigonol i alluogi'r swyddogaethau [...] mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl, i gael eu cyflawni". Nodir yn y Memorandwm mai'r ystyriaeth drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r Bil fu sicrhau, cyn belled ag y bo modd, nad oes

rhaid i unrhyw gostau ychwanegol am addysg awyr agored breswyl gael eu talu o gyllidebau presennol awdurdodau lleol neu ysgolion.

Mae'r Bil yn datgan bod hyn "yn lleihau effaith Pennod 4 o Ran 2 o **Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998"**. Mae Deddf 1998 yn nodi'r trefniadau presennol ar gyfer ariannu ysgolion a gynhelir, ac felly mae'r Bil Addysg Awyr Agored Breswyl yn creu dyletswyddau newydd i ddarparu cyllid ychwanegol ar wahân ar gyfer addysg awyr agored breswyl.

## Adran 3 – Dim caniatáu codi tâl am fwyd a llety ar gyfer addysg awyr agored breswyl

Mae adran 3 o'r Bil yn darparu ar gyfer diwygio **Deddf Addysg 1996**. Mae Deddf 1996 yn gwahardd taliadau am ddarparu addysg. Felly, ni ddylai ysgolion godi tâl am elfennau addysg a chludiant ymweliadau preswyl a wneir yn ystod oriau ysgol neu sy'n gysylltiedig â dyletswydd o dan Ddeddf 2021; fodd bynnag, gall ysgolion godi tâl am fwyd a llety ar hyn o bryd.

Byddai adran 3 o'r Bil yn diwygio Deddf 1996 i ddarparu y byddai ymweliadau preswyl a wneir fel rhan o ofynion y Bil hefyd yn cael eu heithrio rhag taliadau am fwyd a llety. Fodd bynnag, byddai unrhyw ymweliadau preswyl a drefnir yn ychwanegol at y ddyletswydd a nodir yn y Bil yn parhau i fod yn ddarostyngedig i ddarpariaethau perthnasol Deddf 1996.

Nodir yn y Memorandwm mai diben y diwygiadau hyn yw "sicrhau mai dim ond un cwrs addysg awyr agored breswyl a gaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys bwyd a llety". Ychwanegir mai'r bwriad yw osgoi sefyllfa anfwriadol lle gallai ysgolion gael eu hannog i beidio â threfnu addysg awyr agored breswyl bellach pe bai taliadau am fwyd a llety'n cael eu gwahardd yn gyffredinol.

## Adran 4 – Pŵer i wneud darpariaeth drosiannol

Mae adran 4 yn darparu i Weinidogion Cymru wneud trefniadau trosiannol drwy reoliadau mewn cysylltiad â dod â'r adrannau uchod i rym. Nodir yn y Memorandwm y byddai hyn yn caniatáu ar gyfer trosglwyddo hwylus, "er enghraifft, os nad yw'n ymarferol rhoi hawl i bob plentyn ar unwaith, gallai trefniadau trosiannol olygu bod yr hawl yn dechrau fesul cam fel mai dim ond rhai grwpiau oedran sy'n cael addysg awyr agored breswyl ar y dechrau".

### Adrannau 5 a 6 – Dod i rym ac enw byr

Mae adran 5 yn darparu y daw adrannau 1 i 3, os cânt eu pasio, i rym dri mis ar ôl cael y Cydsyniad Brenhinol.

Mae adran 6 yn nodi enw byr y Ddeddf, sef Deddf Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) 2024.

## Asesiad Effaith Rheoleiddiol

### Amcangyfrif o'r costau

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi amcangyfrif o'r costau ar gyfer dau opsiwn: gwneud dim a pharhau â chynlluniau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol; a chyflwyno Bil. Nodir yn y Memorandwm fod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i lunio drwy drafod â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif bod cyfanswm cost y Bil dros y pum mlynedd rhwng £74 miliwn a £96 miliwn. Mae hyn yn cynnwys cost mynychu canolfannau gweithgareddau awyr agored, cludiant ac athrawon cyflenwi. Mae cyfartaledd cost flynyddol y Bil yn amrywio o £15 miliwn i £19 miliwn.

**Tabl 1: Crynodeb o'r costau dros y pum mlynedd gyntaf**

| Costau (£) | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mynychu canolfannau gweithgareddau awyr agored (costau parhaus)** | | | | | | |
| Amrediad isel | 12,397,720 | 12,317,360 | 12,209,800 | 11,868,800 | 11,559,000 | **60,352,680** |
| Amrediad uchel | 16,321,040 | 16,216,240 | 16,074,080 | 15,623,920 | 15,216,720 | **79,452,000** |
| **Cludiant (costau parhaus)** | | | | | | |
| Amrediad isel | 1,330,759 | 1,322,353 | 1,309,809 | 1,272,148 | 1,239,749 | **6,474,818** |
| Amrediad uchel | 1,861,574 | 1,850,044 | 1,833,195 | 1,780,829 | 1,735,735 | **9,061,377** |
| **Athrawon cyflenwi (costau parhaus)** | | | | | | |
| | 1,554,335 | 1,535,813 | 1,498,348 | 1,447,457 | 1,388,414 | **7,424,366** |
| **Cyfanswm y costau** | | | | | | |
| Amrediad isel | 15,282,814 | 15,175,526 | 15,017,956 | 14,588,405 | 14,187,163 | **74,251,864** |
| Amrediad uchel | 19,736,949 | 19,602,097 | 19,405,623 | 18,852,206 | 18,340,869 | **95,937,743** |

Ffynhonnell: Tabl 2 o'r Memorandwm Esboniadol

# 3. Crynodeb o'r ymgyngoriadau ar y Bil Drafft


## Ymgynghoriad cyffredinol

Cynhaliodd Sam Rowlands AS **ymgynghoriad ar ei gynnig ar gyfer Bil Addysg Awyr Agored (Cymru)** rhwng 31 Ionawr a 17 Mawrth 2023. Cafwyd 175 o ymatebion i'r ymgynghoriad sydd wedi cael eu **cyhoeddi** yn llawn ac wedi'u **crynhoi**.

Mewn ymateb i'r cwestiwn a oedd angen deddfwriaeth, roedd 84% o'r ymatebwyr naill ai'n 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' bod ei hangen. Nododd 94% o'r ymatebwyr fod addysg awyr agored yn bwysig iawn i addysg a datblygiad cyffredinol plant a phobl ifanc.

Roedd y prif fanteision a roddodd ymatebwyr yn ymwneud yn bennaf â sgiliau a datblygiad personol gan gynnwys hyder, annibyniaeth, gwytnwch a sgiliau cymdeithasol. Mae'r siart isod yn dangos y deg prif fantais a nodwyd gan ymatebwyr i'r arolwg ac a roddwyd mewn grwpiau o gategorïau pan oedd yr Aelod yn dadansoddi'r ymatebion. Mae'r rhifau'n dangos nifer yr ymatebwyr a nododd y manteision hynny.


**Siart 1: Beth yw'r prif fanteision i blant a phobl ifanc o gael profiad o addysg awyr agored breswyl?**




Ffynhonnell: **Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad**

Gofynnodd yr arolwg beth yw'r prif rwystrau i blant a phobl ifanc rhag cael mynediad i addysg awyr agored breswyl a rhoddwyd opsiynau i ymatebwyr y gallent ddewis cymaint ag sy'n gymwys ohonynt. Mae'r siart isod yn dangos yr opsiynau yn yr arolwg a chanran yr ymatebwyr a ddewisodd yr opsiwn hwnnw. Mae'n dangos bod ymatebwyr yn credu bod cyfyngiadau ariannol yn rhwystr i addysg awyr agored breswyl, ac yna pryder/ansicrwydd rhieni ac yna pryder/ansicrwydd plant.

**Siart 2: Beth yw'r prif rwystrau sydd, yn eich barn chi, yn bodoli ar hyn o bryd i blant a phobl ifanc rhag cael mynediad i brofiadau addysg awyr agored breswyl?**




Ffynhonnell: **Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad**


## Ymgynghoriad i blant a phobl ifanc

Cynhaliodd Sam Rowlands AS ymgynghoriad i blant a phobl ifanc ar y Bil rhwng 10 Mai a 23 Mehefin 2023. Cafwyd 176 o ymatebion i'r ymgynghoriad; 144 gan blant a phobl ifanc, a 32 gan oedolion neu sefydliadau. Mae'r ymatebion wedi cael eu **cyhoeddi** a'u **crynhoi**.

Gofynnodd yr arolwg beth sy'n rhwystro plant rhag cymryd rhan mewn ymweliadau addysg awyr agored dros nos a rhoddodd opsiynau y gallai ymatebwyr ddewis sawl ateb ohonynt. Mae'r siart isod yn dangos bod y gost wedi'i dewis fel y rhwystr mwyaf, ac yna plant yn teimlo'n bryderus a rhieni'n poeni. Mae hyn yn dilyn

yr un patrwm â'r ymgynghoriad cyffredinol (gweler siart 2). Mae'r rhifau yn dangos nifer yr ymatebwyr a ddewisodd bob opsiwn.

**Siart 3: Beth sy'n rhwystro plant rhag cymryd rhan mewn ymweliadau addysg awyr agored dros nos?**




Ffynhonnell: **Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad**

## Ymgynghoriad penodol

Ym mis Gorffennaf 2023, cyhoeddodd Sam Rowlands AS **Fil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) drafft**. Cynhaliwyd ymgynghoriad penodol ar fanylion y Bil drafft â rhanddeiliaid allweddol rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023. **Cyhoeddwyd** ymatebion gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), **Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru**, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, yr Undeb Addysg Cenedlaethol a Chymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru.

Yn yr ymateb gan **Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru**, cwestiynwyd a fyddai darparwyr addysg awyr agored yn gweld y Bil fel ffordd o gynyddu eu hincwm gymaint â phosibl. Dywedodd **CLlLC** y byddai angen sefydlu trefniant ffurfiol gyda chyflenwyr ac y byddai angen i'r system fod yn gwbl ddibynadwy, yn atebol ac yn bodloni'r disgwyliad heb risg o ymgyfreitha.

# 4. Y camau nesaf

Cyfeiriwyd y Bil at y **Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** ar gyfer craffu **Cyfnod 1**. Bydd y Pwyllgor yn cynnal sesiynau tystiolaeth gyda Sam Rowlands AS, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i glywed eu barn am y Bil cyn cyflwyno adroddiad i'r Senedd.

Gallwch ddilyn y trafodion ar **dudalennau gwe'r Pwyllgor**.